


Gadewch i ni eich helpu i gadw eich taliadau ar-lein yn ddiogel



www.getsafeonline.org

Ymddiriedwch yn Get Safe Online i'ch helpu i ddiogelu eich arian â chyngor ar daliadau mwy diogel

Erbyn heddiw, gallwch dalu am bron i unrhyw beth ar-lein: cynhyrchion, gwasanaethau, tocynnau, gwyliau ... eich car, fan neu'ch beic modur nesaf hyd yn oed. Gallwch roi arian i elusen, prynu trwydded yrru neu basbort neu dalu i lawrlwytho, ffrydio, chwarae neu gamblo.

Mae'n gyflym ac yn gyfleus, ond mae risgiau hefyd ynghlwm wrth hyn, gyda seiberdroseddwyd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ddargyfeirio eich arian i'w pcedi. Darllenwch ein hawgrymiadau arbenigol ar gyfer diogelu eich hun a'ch arian.

- Peidiwch â thalu am unrhyw beth drwy drosglwyddo arian yn uniongyrchol i bobl neu gwmnïau nad ydych yn eu hadnabod, ni waeth pa mor awyddus yr ydych i brynu. Os yw'n dwyll, mae'n annhebygol y bydd y banc yn gallu adennill nac ad-dalu eich arian. Y ffordd fwyaf diogel o dalu am unrhyw beth yw trwy ddefnyddio cerdyn credyd.
- Sicrhewch fod gwefannau siopa'n ddilys drwy edrych yn ofalus i weld bod y cyfeiriad wedi'i sillafu'n gywir. Gall twyllwyr greu gwefannau argyhoeddiadol â chyfeiriadau wedi'u sillafu'n debyg iawn i'r un dilys.
- Sicrhewch fod tudalennau talu yn rhai diogel, drwy wneud yn si r bod y cyfeiriad yn cychwyn gyda 'https' (mae 's' yn cynrhychioli 'secure') a bod llun clo wedi cau yn y blwch cyfeiriad.
- Pan fyddwch wedi gorffen gwneud taliad ar-lein, allgofnodwch o'ch cyfrif. Ni fydd dim ond cau'r dudalen o reidrwydd yn gwneud hyn yn awtomatig.
- Peidiwch â gwneud taliadau ar-lein wrth ddefnyddio manau Wi-Fi cyhoeddus, oherwydd efallai nad yw'r rhain yn ddiogel ac yn rhai ffug, a gallai eich trafodion gael ei gipio. Yn hytrach, defnyddiwch eich data, dongl band eang neu VPN ... neu arhoswch tan y byddwch yn cyrraedd adref.



Am ragor o wybodaeth ar sut i wneud taliadau ar-lein yn ddiogel, ewch i www.getsafeonline.org/safepayments #safepayments

Ffyrdd eraill i gadw eich taliadau ar-lein yn ddiogel



- Gan amlaf mae twyllwyr yn tynnu sylw at gynhyrchion, gwasanaethau, tocynnau digwyddiadau, teithio, gwyliau, llety, gamblo, gemau a cherbydau ail-law a llawer mwy sydd ddim yn bodoli. Maent yn defnyddio gwefannau ocsiwn, cyfryngau cymdeithasol, gwefannau ffug neu wefannau wedi'u copio a llwyfannau llety dilys hyd yn oed. Peidiwch â thalu unrhyw arian – dim hyd yn oed blaendal – oni bai eich bod wedi ymchwilio i'r ffynhonnell a'r cynnyrch/gwasanaeth dan sylw'n drylwyr a'ch bod wedi cael eich darbwyllo ei fod yn ddilys.
- Os byddwch yn derbyn e-bost, llythyr neu alwad ffôn yn gofyn i chi newid manylion talu ar gyfer gwasanaeth, cynnyrch neu danysgrifiad, ffoniwch rif y cwmni y gwyddoch ei fod yn ddilys bob amser, rhag ofn bod rhywun arall yn ceisio eich twyllo.
- Dilynwch yr hanfodion technoleg syml o gael y feddalwedd/apiau diogelwch y we wedi'u llwytho ac yn barod, a'r diweddariadau diweddaraf i systemau gweithredol, meddalwedd ac apiau. Gallai hyn atal cael eich heintio gan faleiswedd sy'n dargyfeirio eich taliadau ar-lein.
- Peidiwch â chlicio ar atodiadau mewn e-byst annisgwyl neu ddolenni mewn e-byst, negeseuon neu negeseuon testun ar hap. Gallai gwneud hyn arwain at gipio eich taliad ar-lein.
- Derbyniwch unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol a gynigir gan eich banc, gan y byddant yn helpu i gadw trafodion yn ddiogel.
- Lawrlwythwch apiau symudol o siopau apiau sydd wedi cael eu hawdurdodi yn unig, fel arall gallant fod yn dwyllodrus.
- Defnyddiwch gyfrinair cryf a gwahanol ar gyfer eich cyfrif e-bost. Gellir creu cyfrinair cryf a chofiadwy drwy ddefnyddio tri gair ar hap, â rhifau a symbolau wedi cymryd lle rhai nodau neu wedi'u hychwanegu atynt.



Os ydych yn meddwl eich bod wedi cael eich twyllo ar-lein, rhwch wybod i Action Fraud, sef canolfan genedlaethol y DU ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdroseddu, ar 0300 123 20 40 neu yn www.actionfraud.police.uk

Get Safe Online

Get Safe Online yw'r ffynhonnell fwyaf blaenllaw o wybodaeth a chynghor ar ddiogelwch ar-lein yn y DU, i'r cyhoedd a busnesau bach. Mae'n bartneriaeth nid er elw rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat sydd wedi'i chefnogi gan nifer o adrannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a sefydliadau blaenllaw ym maes diogelwch y rhyngwyd, bancio a manwerthu.

I gael rhagor o wybodaeth a chynghor diduedd arbenigol sy'n hawdd ei ddilyn ar ddiogelu eich hun, eich teulu, eich arian, eich dyfeisiau a'ch gweithlu, ewch i www.getsafeonline.org



www.getsafeonline.org

OFFICIAL PARTNERS

TESCO



HSBC

KASPERSKY



Gumtree

Standard Life



PayPal

ClearScore



airbnb



NatWest

M&S BANK



LLOYDS BANK



BANK OF SCOTLAND



first direct



creative virtual

The search of conversation

